



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

Canolfan y Dechnoleg Amgen

Mawrth 2022

Y canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am Ganolfan y Dechnoleg Amgen

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen:

- Gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.
- Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu.

Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw welliannau penodol.

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 21 a 22 Mawrth 2022 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro Paul Brunt
- Ms Diane Rainsbury
- Dr Harry Williams (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Yr effaith a gafodd y pandemig COVID-19

Yn sgil y pandemig COVID-19, gweithredwyd yr adolygiad ar-lein ac, yn rhan o hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r uwch dîm rheoli, staff addysgu a staff cymorth, a myfyrwyr. Mae cwmpas y dystiolaeth a ystyriwyd, a natur y beirniadaethau a'r cerrig milltir gweithredol wedi aros yr un fath, ond gwnaed rhai addasiadau am ei fod yn digwydd ar-lein. Yn ystod y pandemig, mae QAA wedi parhau i adolygu ei threfniadau ar gyfer cynnal adolygiadau ar-lein er mwyn canfod a lleihau unrhyw risgiau posibl.

Ynghylch Canolfan y Dechnoleg Amgen

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen ('y Ganolfan') yn elusen amgylcheddol sydd ag enw da drwy'r byd i gyd. Mae'n ganolfan ecolegol sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn ddarparwr blaenllaw o addysg amgylcheddol ôl-raddedig. Ei chenhadaeth yw ysbrydoli, hysbysu a galluogi'r ddynoliaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Cafodd ei sefydlu yn 1973 ym Machynlleth yng Nghanolbarth Cymru ac mae wedi bod yn darparu addysg ym maes cynaliadwyedd ers mwy na 40 mlynedd.

Mae'r Ganolfan yn darparu ei rhaglenni addysg uwch i gyd yn ei Hysgol Graddedigion yr Amgylchedd. Strategaeth y Ganolfan i'r Ysgol Graddedigion ar gyfer 2020-25 yw sicrhau bod yr Ysgol yn cael yr effaith fwyaf bosib drwy gynyddu nifer y myfyrwyr, ehangu mynediad, ac ehangu amrediad ei chyrsgiau, a hynny oll gan gynnal safon uchel y profiad dysgu y mae'n ei gynnig i'w myfyrwyr. Dros y pump i ddeng mlynedd nesaf, bwriedir darparu cyfleusterau hyfforddi ychwanegol i gefnogi sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Ganolfan yn darparu ystod o raddau ôl-raddedig yn ymwneud â materion amgylcheddol sy'n cael eu dilysu naill ai gan Brifysgol Dwyrain Llundain neu gan Brifysgol John Moores Lerpwl, yn ogystal ag amrywiaeth eang o gyrsiau byr. Ers ei hadolygiad blaenorol gan QAA, mae'r Ganolfan wedi sicrhau dilysiad ar gyfer dwy raglen gradd meistr ychwanegol gan Brifysgol John Moores Lerpwl - 'Sustainability and Behaviour Change' [Cynaliadwyedd a Newid Ymddygiad], a 'Sustainability and Ecology' [Cynaliadwyedd ac Ecoleg] - ac, yn fwy diweddar, y rhaglen MSc 'Green Building' [Adeiladu Gwyrdd] a ddilysir gan Brifysgol Dwyrain Llundain. Dyma'r rhaglenni gradd meistr eraill a ddarperir ar hyn o bryd:

- Meistr mewn Pensaernïaeth 'Sustainable Architecture' [Pensaernïaeth Gynaliadwy]
- MSc / PGDip / PGCert 'Sustainability and Adaptation' [Cynaliadwyedd ac Addasu]
- MSc / PGDip / PGCert 'Sustainability and Adaptation in the Built Environment' [Cynaliadwyedd ac Addasu yn yr Amgylchedd Adeiledig]
- MSc / PGDip / PGCert 'Sustainability and Adaptation Planning' [Cynllunio Cynaliadwyedd ac Addasiadau]
- MSc / PGDip / PGCert 'Sustainability in Energy Provision and Demand Management' [Cynaliadwyedd wrth Ddarparu Ynni a Rheoli Galw]

Gyda chyflwyniad y cyrsiau newydd hyn, mae nifer y myfyrwyr fesul pen ar gyfer 2021-22 wedi cynyddu i 239 (sef 108.5 cyfwerth ag amser llawn), o'i gymharu ag oddeutu 100 ar adeg yr adolygiad blaenorol. Mae'r Ganolfan wedi gweithredu mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer ei myfyrwyr a'r effaith a gafodd hyn ar adnoddau, yn enwedig yn ystod y pandemig COVID-19, drwy gynyddu ei hadnoddau staff a'i darpariaeth TG i ateb anghenion yr astudio o bell. Nid oes gan y Ganolfan gynlluniau pellach i gynyddu nifer ei myfyrwyr am fod y safle'n llawn o ran ei gapasiti nes yr ychwanegir cyfleusterau hyfforddi a llety yn rhan o gynlluniau datblygu'r Ganolfan ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf.

Un o'r elfennau sydd wedi denu myfyrwyr i astudio yn y Ganolfan yw'r cyfle i astudio ar y safle gyda'r bloc modiwlau'n cael ei ddarparu drwy ddull dysgu cyfunol. Un o'r sialensiau allweddol sy'n wynebu'r Ganolfan erbyn hyn yw sut i ateb disgwyliadau'r myfyrwyr o ran cael profiad ar y safle o fewn y cyfyngiadau COVID-19 parhaus a dychwelyd i addysgu diogel ar y safle.

Cafodd y Ganolfan Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen) llwyddiannus gan QAA yn 2017 a derbyniodd ganmoliaethau am ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr a'r modd y sicheir gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Canfu'r tîm adolygu bum nodwedd o arfer da. Ni nododd y tîm unrhyw argymhelliad na chadarnhad.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

1 Gan y ddwy brifysgol ddilysu - Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol John Moores Lerpwl - y mae'r cyfrifoldeb pennaf am osod a sicrhau safonau academaidd. Ceir cytundebau manwl a fframweithiau rheoliadol sy'n nodi beth yw cyfrifoldebau pob partner ac mae'r Ganolfan yn glynu'n fanwl at y rheoliadau a'r gofynion sicrhau ansawdd, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â marcio a safoni, a datblygu a chymeradwyo rhaglenni. Mae manylebau'r rhaglenni'n dangos bod y rhaglenni wedi eu gosod ar y lefel academaidd briodol gyda chanlyniadau dysgu sy'n alinio â'r FHEQ sydd wedi eu diffinio'n glir.

2 Mae gweithrediad cyson y Ganolfan o brosesau ei chyrrff dyfarnu, yn cynnwys eu trefniadau marcio a safoni, a'r ystyriaeth i bwyntiau cyfeirio allanol priodol, yn dangos cysondeb yn safonau'r dyfarniadau a chyflawniadau ei myfyrwyr, a'r ffaith bod modd eu cymharu â'i gilydd. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y cyrsiau'n cwrdd â'r safonau trothwy sydd i'w cael yn y FHEQ ac mae'r safonau a gyflawnwyd yn gymaradwy â rhaglenni cyfatebol ac â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. Roedd yr aelodau o staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n siarad yn wybodus am y disgwyliadau o ran cynnal safonau a'r mecanweithiau i'w bodloni.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

3 Dilysir pob dyfarniad gan y naill brifysgol neu'r llall yn unol â rhaglenni'r Ganolfan yn amodol ar reoliadau a fframweithiau academaidd y prifysgolion dilysu hyn. O ganlyniad i hynny, nid yw unrhyw ofyniad i ddilyn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* yn orfodol ar gyfer y rhaglenni sy'n gorfod alinio â'r FHEQ. Fodd bynnag, er nad yw hyn yn ofyniad tynn mewn perthynas â gofynion y cyrrff dyfarnu, mae'r Ganolfan yn parchu gwerthoedd cyffredin ac egwyddorion uwch FfCChC drwy eu hymwreiddio yn ei pholisïau a'i harferion.

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

4 Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda dau gorff dyfarnu a gan y ddau gorff hyn y mae'r cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd eu dyfarniadau. O dan ei chytundebau dilysu, mae gan y Ganolfan gyfrifoldeb llawn am ddatblygu, darparu ac asesu rhaglenni, gan sicrhau bod ei rhaglenni wedi eu llunio'n briodol ac yn alinio â'r fframweithiau cymwysterau perthnasol. Mae cyfrifoldeb y Ganolfan am gynllunio rhaglenni'n cynnwys pennu'r canlyniadau dysgu ac aliniad â'r FHEQ yn unol â pharamedrau cyffredinol y corff dyfarnu, a gan y cyrrff hynny y mae'r cyfrifoldeb pennaf am sicrhau cydymffuriad â fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Mae eglurder y trefniadau hyn yn sicrhau y bydd y rhaglenni'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol, ar yr amod eu bod yn dilyn y trefniadau hyn.

5 Wrth gynllunio rhaglenni newydd, mae'r Ganolfan yn gweithio yn unol â'r paramedrau a'r templedi ar gyfer rhaglenni sydd wedi eu nodi gan y brifysgol bartner berthnasol. Mae manylebau'r rhaglenni'n nodi'n glir bod y canlyniadau dysgu wedi eu halinio â lefel 7 yn y FHEQ, y Datganiad o Nodweddion ar gyfer graddau meist'r a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Am eu bod yn rhyngddisgyblaethol eu natur, nid yw pob rhaglen yn perthyn i gwmpas un

Datganiad Meincnod Pwnc. Yn hytrach, mae'r Ganolfan yn cynllunio ac yn mapio'r rhaglenni yn erbyn elfennau perthnasol nifer o Ddatganiadau Meincnodi Pwnc. Mae rhaglenni, megis y rhaglen Meistr mewn Pensaernïaeth Gynaliadwy, yn atebol hefyd i safonau manwl y corff proffesiynol ar gyfer y sector, a gwelwyd tystiolaeth o fapio'r canlyniadau dysgu a'r cwricwlwm yn fanwl yn unol â'r gofynion hyn gan y corff proffesiynol.

6 Mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau trothwy'n gyson â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol ac nad yw'r safonau'n cael eu dyfarnu heblaw pan fydd safonau o'r fath wedi eu cyflawni ac yn cyfateb â rheoliadau'r corff dyfarnu.

7 Yn y manau hynny lle mae gan y Ganolfan gyfrifoldeb dirprwyedig, gwelwyd tystiolaeth bod y safonau academaidd trothwy'n gyson â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol. Dangosodd y staff wybodaeth weithredol fanwl o'r gofynion hynny i gynnal safonau academaidd a'r ffordd y cyflawnir y gofynion hynny wrth weithio'n weithredol i gynllunio, darparu ac asesu rhaglenni.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwr darparwr eraill yn y DU.

8 Dangosodd y Ganolfan ei bod yn gweithredu'r pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol a phrosesau ei chyrrff dyfarnu'n gyson, yn cynnwys eu trefniadau marcio a safoni. Cyflenwir prosesau'r ddwy brifysgol gan ddisgrifwyr meini prawf asesu'r Ganolfan ei hun sy'n cynnwys disgrifwyr lefel a chyfarwyddiadau asesu'r meini prawf asesu ar gyfer graddau meistr generig. Defnyddir y dulliau hyn i sicrhau cysondeb ac i allu gwneud cymariaethau ar draws asesiadau'r rhaglenni yn ôl y safonau trothwy a gweithrediad yr amrywiol feini prawf graddio ar wahanol lefelau o berfformiad.

9 Roedd yr aelodau staff yn siarad yn wybodus am y disgwyliadau o ran cynnal safonau, defnyddio meini prawf marcio manwl, y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael i'r myfyrwr, yn ogystal â rôl adborth datblygiadol a chrynodol er mwyn galluogi myfyrwr i gyflawni. Clywodd y tîm ei fod yn beth gweddol gyffredin i fyfyrwr chwilio am a sicrhau arweiniad pellach ynglŷn â ffordd o wella eu cyrhaeddiad cyffredinol ymhellach.

10 Roedd adroddiadau arholwyr allanol yn rhoi tystiolaeth gadarn bod y prosesau marcio a safoni'n cael eu defnyddio'n gywir ac yn cadarnhau bod cyfle i fyfyrwr gyrraedd safonau uwch na'r lefel trothwy.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

11 Mae'r Ganolfan yn gweithio yn unol â thelerau'r Memoranda Cytundeb gyda'i phrifysgolion dilysu, a'u polisiâu a'u fframweithiau rheoliadol hwythau. Mae'r rhain yn gynhwysfawr ac yn nodi cyfrifoldebau perthnasol bob partner yn fanwl.

12 Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am ddatblygu rhaglenni, llunio a gosod aseiniadau ar y lefel briodol, a'u marcio a'u safoni yn unol â'r prosesau sydd wedi eu nodi yn rheoliadau fframwaith academaidd y brifysgol ddilysu. Mae'r gyfres o reoliadau a phrosesau cysylltiedig sydd gan y prifysgolion yn darparu'r fframwaith angenrheidiol i sicrhau bod safonau'r dyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy.

13 Mae'r Ganolfan yn ychwanegu at ganllawiau rheoleiddiol ei phrifysgolion partner dilysu gyda'i phrosesau a'i pholisïau ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys Llawlyfr Sicrhau Ansawdd, Egwyddorion Asesu'r Ysgol Graddedigion, Polisi a Gweithdrefnau Uniondeb Academaidd, a disgrifwyr graddau meistr. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm fod y Ganolfan yn trafod addasiadau a newidiadau pellach i'r polisi er mwyn ei wneud yn fwy addas i'w gyd-destun, yn arbennig lle mae hyn yn cynnwys mabwysiadu arferion gorau penodol yn ehangach gan un o'i phartneriaid dilysu ar draws ei rhaglenni i gyd.

14 Gwelwyd tystiolaeth gadarn o gydymffurfio'n effeithiol â gofynion rheoleiddiol a phrosesau sicrhau ansawdd y prifysgolion a chadarnhaodd yr arholwyr allanol bod gwaith y myfyrwyr yn gymaradwy â'r safonau yn y sector, a bod safonau'r dyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy. Dangosodd y staff hefyd wybodaeth weithredol effeithiol o'u rolau yn y gwaith o gynnal safonau a'r amrywiol brosesau sy'n ofynnol i gyflawni eu cyfrifoldeb eu hunain a gofynion y ddwy brifysgol bartner. Mae gan y Ganolfan fecanweithiau effeithiol i sicrhau bod y staff yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion y brifysgol. Mae'r mecanweithiau hynny'n cynnwys lledaenu gwybodaeth drwy'r Cyngor Academaidd, Pennaeth yr Ysgol a chyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgorau Rhaglen, sy'n ychwanegol at y cyswllt effeithiol drwy'r system Tiwtoriaid Cyswllt Prifysgol.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

15 Mae'r Ganolfan yn dilyn polisïau a gweithdrefnau asesu ei phrifysgolion dilysu sydd wedi eu nodi yn eu fframweithiau a'u rheoliadau academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion sy'n llywio ail farcio a safoni, a rôl yr arholwyr allanol. Mae gan y Ganolfan nifer o bolisïau a phrosesau asesu - disgrifwyr lefel y meini prawf asesu ar gyfer graddau meistr a'r cyfarwyddyd asesu - sy'n cyflenwi ac yn alinio'n briodol â gofynion ei chyrff dyfarnu. Mae'r Ganolfan wedi mabwysiadu ei pholisïau a'i phrosesau ei hun yn ymwneud ag uniondeb academaidd a chyflwynir aseiniadau drwy feddalwedd canfod llên-ladrad. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod gwaith y myfyrwyr yn cael ei farcio'n deg ac yn gyson, ar y lefel academaidd gywir ac yn unol â chanlyniadau dysgu'r rhaglen a'r meini prawf sylfaenol.

16 Mae dogfennaeth y rhaglenni perthnasol yn nodi'n glir beth yw'r dulliau asesu, y meini prawf a'r safonau y mae disgwyl i'r myfyrwyr eu cyrraedd. Cadarnhaodd y myfyrwyr mai canllawiau'r modiwlau oedd eu prif ffynhonnell wybodaeth i gyfeirio ati ac roeddent yn teimlo bod y canllawiau'n gynhwysfawr a chlir. Roeddent nhw'n cadarnhau hefyd bod y staff academaidd yn darparu lefel uchel o gefnogaeth.

17 Mae'r myfyrwyr yn derbyn cyfuniad o adborth ffurfiannol ac adborth crynodol, yn unol â pholisïau'r prifysgolion. Nododd y tîm bod adborth crynodol yn cael ei ddarparu drwy adroddiad electronig sy'n rhoi anodiadau manwl mewn perthynas â'r cyfarwyddyd asesu ac yn cynnwys adborth cyffredinol. Soniodd nifer o'r myfyrwyr bod sefyllfaoedd wedi codi, yn enwedig pan oeddent wedi derbyn gradd uchel, pan oedd yr adborth yn aneglur ynglŷn â sut y gallent wella. Er bod y tîm adolygu'n fodlon bod y myfyrwyr yn derbyn adborth, roedd yn gweld cydnabyddiaeth gan y Ganolfan o'r ffaith bod angen parhau i ymgysylltu â'r myfyrwyr i'w helpu i ddeall fformat yr adroddiadau a sut mae'r cyfarwyddyd asesu'n cael ei ddefnyddio.

18 Roedd adroddiadau arholwyr allanol yn rhoi tystiolaeth ategol ac adborth cadarnhaol bod prosesau'r brifysgol berthnasol ar gyfer marcio, safoni a dosbarthu'n cael eu gweithredu a bod y safonau academaidd a chyflawniad y myfyrwyr yn gymaradwy â safonau'r FHEQ a rhaglenni gradd meistr cyffelyb. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn cadarnhau bod yr asesu a'r marcio'n gyson ac yn deg, a bod y prosesau marcio a safoni'n cael eu dilyn yn fanwl.

19 Gall y myfyrwyr weld adroddiadau'r arholwyr allanol drwy rith-amgylchedd dysgu'r corff dilysu ac mae'r ymatebion i adroddiadau o'r fath yn cael eu rhannu a'u trafod gyda'r myfyrwyr drwy'r broses o fonitro cyrsiau. Er bod prosesau o'r fath yn effeithiol, nid oedd y myfyrwyr y cyfarfu'r

tîm â nhw'n gwybod yn glir ymhle y gallent gael gafael ar adroddiadau arholwyr allanol. Mae'r tîm yn awgrymu bod lle o bosib i ystyried sut i roi mwy o wybodaeth i fyfyrwyr am y manau lle mae'r wybodaeth hon ar gael.

20 Mae gan y Ganolfan brosesau sydd wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer ystyried ac ymateb i adroddiadau arholwyr allanol, gan ddechrau gyda'r cynlluniau ymateb cyntaf a'r cynlluniau gweithredu manylach sy'n cael eu hystyried am yr eildro drwy'r broses flynyddol o adolygu rhaglenni, yr ystyriaeth mewn pwyllgorau rhaglen ac, yn y pen draw, drwy'r Cyngor Academaidd sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am y goruchwyllo o fewn y sefydliad. Roedd y staff yn gwbl gyfarwydd â'r prosesau hyn, yn cynnwys rôl yr arholwyr allanol yn y gwaith o sicrhau a chynnal safonau academaidd a chyfraniad ehangach yr arbenigedd allanol mewn cefnogi datblygiad ac asesiad rhaglenni.

21 Mae'r Ganolfan yn defnyddio arbenigedd allanol hefyd drwy gyflogi darlithwyr gwadd yn rhan o brosesau darparu ac asesu rhaglenni, drwy ddefnyddio arbenigedd allanol wrth ddatblygu rhaglenni a thrwy brosesau ffurfiol y prifysgolion ar gyfer cymeradwyo ac adolygu cyfnodol.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

22 Mae'r Ganolfan yn gweithredu'n unol â pholisïau a fframweithiau gweithdrefnol ei chyrrff dyfarnu er mwyn cyflawni ei chyfrifoldeb am gynnal safonau academaidd. Mae'r prosesau monitro blynyddol yn effeithiol o ran ysgogi datblygiad a gwelliant drwy gynlluniau gweithredu sydd wedi eu diffinio'n glir. Adolygir data am gynnydd a chwblhau'n rheolaidd yn rhan o'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol ynghyd â chanlyniadau prosesau arholi allanol ac unrhyw brosesau gan gyrrff proffesiynol. Mae adborth gan fyfyrwyr yn rhan annatod o'r broses. Defnyddir data a chanlyniadau'r adborth am fodiwlau drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

23 Mae gan y Ganolfan brosesau rheoli a phrosesau llywodraethu ymgynghorol effeithiol i ysgogi datblygiad a gwelliant. Mae'r Cyngor Academaidd yn goruchwyllo iechyd y rhaglenni a'r safonau academaidd yn gyffredinol, gan ystyried y canlyniadau'n rheolaidd o ystod eang o dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ac ysgogi datblygiad a gwelliant. Cyflawnir hyn ar lefel fwy gweithredol drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgorau Rhaglen i ymateb i adborth a phroblemau wrth iddynt godi.

Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

24 Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda dau gorff dyfarnu sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd y dyfarniadau. O dan ei chytundebau dilysu, mae gan y Ganolfan gyfrifoldeb llawn am ddatblygu, darparu ac asesu rhaglenni, gan sicrhau bod ei rhaglenni wedi eu llunio a'u halinio'n briodol â fframweithiau cymwysterau perthnasol. Dangosodd y staff wybodaeth weithredol fanwl o'r gofynion hyn i gynnal safonau academaidda'r ffordd y cyflawnir y gofynion hynny wrth weithio'n weithredol. Cadarnhaodd yr arholwyr allanol fod y safonau trothwy'n gyson â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae eglurder y trefniadau hyn a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Ganolfan yn dangos bod y rhaglenni'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol.

25 Canfu'r adolygiad bod y Ganolfan yn glynu'n fanwl at reoliadau a gofynion sicrhau ansawdd ei chyrrff dyfarnu. Trwy weithredu prosesau ei cyorff dyfarnu'n gyson, yn cynnwys eu trefniadau marcio a safoni, a thrwy ystyried y pwyntiau cyfeirio allanol priodol, gall y Ganolfan ddangos cysondeb yn safonau'r dyfarniadau a chyflawniadau ei myfyrwyr, a'r ffaith bod modd eu cymharu â'i gilydd. Mae'r Ganolfan yn rhoi ystyriaeth i'r safonau perthnasol a gydnabyddir gan

y sector drwy ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol, y Datganiad o Nodweddion ar gyfer graddau meistr a gofynion cyrff proffesiynol. Cadarnheir gwerth y cymwysterau a ddyfernir i'r myfyrwyr gan arholwyr allanol sy'n cadarnhau bod y safonau trothwy'n gyson â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol a bod safonau'n cael eu dyfarnu yn unol â rheoliadau'r corff dyfarnu.

26 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Ganolfan yn effeithiol o ran cyflawni'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin a'i bod yn cynnal safonau'r dyfarniadau, ac felly mae'n bodloni'r Disgwyliadau o ran safonau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd.

Y feirniadaeth

27 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr, yn cynnwys staff y cyrff dyfarnu. Galluogodd y cyfarfodydd a'r dogfennau i'r tîm adolygu weld tystiolaeth gadarn sy'n dangos bod safonau academiaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU); a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

28 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

29 Mae Polisi Derbyn y Ganolfan yn amlinellu dull o gofrestru myfyrwyr sy'n deg, yn eglur ac yn gyfartal. Mae gwefan y Ganolfan yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â chwricwlwm, ffioedd a thelerau ac amodau'r darparwr. Yn weithredol, mae Pennaeth yr Ysgol Graddedigion yn gyfrifol am oruchwylio'r broses dderbyn, gyda chymorth y Tîm Cymorth Myfyrwyr ac arweinwyr y rhaglenni perthnasol.

30 Mae trefniadau priodol yn eu lle i adael i fyfyrwyr sydd heb gymwysterau ffurfiol, ond sydd â gwybodaeth a sgiliau perthnasol a phriodol, ddangos y rhain. Gall y myfyrwyr hyn wneud cais am naill ai gydnabod dysgu blaenorol (credydau) neu achredu dysgu profiadol neu ardystiedig blaenorol, yn unol â pholisi'r partner dyfarnu perthnasol. Mae nifer fechan o'r myfyrwyr wedi cael lle ar raglenni drwy'r ddau lwybr hyn.

31 Mae trefn apelio lle gall ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus apelio yn erbyn canlyniad eu cais, ac mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y Polisi Derbyn. Yn ystod yr ymweliad ar-lein, clywodd y tîm adolygu bod modd canfod opsiynau eraill fel arfer os nad oes modd rhoi ymgeiswyr ar eu dewis raglenni - er enghraifft, cofrestriad ar rai o gyrsiau byr y Ganolfan.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

32 Mae ei chytundebau gyda'i chyrrff dyfarnu'n dangos bod y Ganolfan yn gyfrifol am gymeradwyo ac addasu rhaglenni, ac mae'r Ganolfan yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae'r cyrrff dyfarnu a'r Ganolfan yn rhannu'r cyfrifoldeb am gynllunio rhaglenni, ac mae'r Ganolfan yn gyfrifol am gynnig newidiadau i fodiwlau. Mae'r Ganolfan yn ystyried rhaglenni newydd a newidiadau i raglenni cyfredol o fewn ei strwythurau ymgynghorol ac mae'n gweithio gyda'r corff dyfarnu perthnasol i sicrhau cymeradwyaeth. Mae cynigion yn cael eu halinio â phwyntiau cyfeirio priodol, a cheisir arbenigedd allanol i adolygu cynigion am gyrsiau newydd, a modiwlau newydd neu ddiwygiedig. Mae'r Cyngor Academaidd yn ystyried cynigion am gyrsiau newydd yn ffurfiol, ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Ganolfan yn cymryd rhan effeithiol yn y broses o gynllunio rhaglenni.

33 Y Cyngor Academaidd yw'r prif grŵp ar lefel strategol ar gyfer datblygu ansawdd ac addysg uwch, ac mae'n craffu ar effeithiolrwydd systemau sicrhau a gwella ansawdd y Ganolfan. Mae'r Cyngor Academaidd yn gweithredu'n effeithiol ac mae tystiolaeth sy'n dangos safon uchel ei berfformiad; cyflawnir hyn drwy ei waith o oruchwylio'r prosesau adolygu blynyddol (sy'n cynnwys adroddiadau arholwyr), ystyried adborth gan y myfyrwyr, a monitro data'n barhaus.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academiaidd o safon uchel.

34 Mae'r Ganolfan yn cyflogi nifer ddigonol o staff academiaidd a staff cymorth sydd â'r cymwysterau priodol i ateb anghenion ei phoblogaeth myfyrwyr. Er nad yw'r cyrrff dyfarnu'n cymryd rhan yn y recriwtio, mae ganddynt yr hawl i gymeradwyo penodiad aelod newydd o staff academiaidd yn derfynol, ac maent yn cefnogi'r Ganolfan gydag achrediadau i athrawon a chyfluoedd datblygu eraill. Mae aelodau'r staff sy'n newydd i addysgu'n cael eu mentora a'u cefnogi yn eu rôl. Mae gan y Ganolfan bolisi datblygiad staff cynhwysfawr, ac mae ei phwyllgor datblygiad staff yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i ddyrannu arian i gefnogi ceisiadau am

ddatblygiad staff. Mae cyfleoedd ar gael i'r staff wneud gwaith ymchwil a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgolheigaidd, ac maent yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth yn eu datblygiad.

35 Mae'r staff yn elwa o'r hawl i gymryd rhan mewn cyrsiau byr a gynhelir gan y Ganolfan, a darperir cyrsiau diweddarau a hyfforddi proffesiynol cyffredinol ehangach. Canfyddir cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus drwy weithgareddau arsylwi gan gymheiriaid bob blwyddyn, ac mae gofynion y datblygiad yn cael eu hystyried yn rhan o'r prosesau blynyddol o arfarnu staff ac arsylwi addysgu gan gymheiriaid. Mae'r myfyrwyr yn dweud eu bod yn derbyn addysgu o safon uchel, ac mae tystiolaeth o hyn yn eu gwerthusiadau.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academiaidd o safon uchel.

36 O ran argaeledd y cyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr priodol, mae hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses o gymeradwyo rhaglenni, yn cael ei ddangos mewn llawlyfrau ac ym manylebau'r rhaglenni, ac wedyn yn cael eu monitro drwy brosesau monitro blynyddol ac adborth gan fyfyrwyr. Mae gan y Ganolfan adnoddau ffisegol pwrpasol ar ei safle, ond cynigir y cyrsiau drwy ddulliau darparu cyfunol, gyda chyfle i ddefnyddio rhith-amgylchedd dysgu a llyfrgell y corff dyfarnu. Mae'r myfyrwyr yn dweud bod yr holl ddogfennau, llawlyfrau, cyhoeddiadau, darlithoedd, deunyddiau darllen, amserlenni, gwybodaeth am asesiadau, polisïau a gwybodaeth am gyfarfodydd ymgynghorol ar gael yn hawdd iddyn nhw. Mae gan y Ganolfan system tiwtoriaid personol sydd wedi ei sefydlu'n dda, mae'n darparu amrywiaeth briodol o wasanaethau cymorth a lles myfyrwyr ac mae mynediad ychwanegol at adnoddau'r cyrff dyfarnu. Adlewyrchir anghenion y corff myfyrwyr am adnoddau'n addas ym mholisïau a gweithdrefnau'r Ganolfan.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

37 Nid oes gan y Ganolfan strategaeth drosfwaol yn ymwneud ag ymgysylltiad y myfyrwyr; ond, mae system gynrychiolaeth y myfyrwyr wedi ei sefydlu'n dda lle mae cynrychiolwyr y myfyrwyr i'w cael ar bwyllgorau lefel uchel, yn cynnwys y Cyngor Academiaidd. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Rhaglen a gynhelir bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yn cyfarfod bob mis ac yn darparu cyfle pellach i staff ymateb i adborth gan fyfyrwyr am fodiwlau.

38 Mae'r myfyrwyr hefyd yn rhoi adborth yn ystod cyfarfodydd adborth a gynhelir ar ddiwedd bob wythnos modiwl ar y safle. Cynhelir y rhain fel arfer fel cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu drwy fideo-gynadleddau i ganiatáu cyfranogaeth o bell. Gall y myfyrwyr hefyd roi adborth ysgrifenedig yn ddiennw ar y safle ar ddiwedd pob wythnos addysgu ar y safle. Ar ddiwedd bob blwyddyn academiaidd, mae'r staff academiaidd yn gwerthuso'r adborth gan fyfyrwyr yn ystod cyfarfod staff dros ddau ddiwrnod.

39 Yn ystod yr ymweliad ar-lein, cadarnhaodd y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr i'r tîm bod y Ganolfan yn awyddus bob amser i glywed adborth gan fyfyrwyr a chydweithio â'r corff myfyrwyr i wella profiad academiaidd y myfyrwyr. Yn bwysig iawn, darparodd cynrychiolwyr y myfyrwyr nifer o esiamplau o sefyllfaoedd lle mae'r adborth gan fyfyrwyr wedi arwain at newidiadau cadarnhaol yn y Ganolfan.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

40 Mae gan y Ganolfan bolisi cwynion sy'n deg ac yn hygyrch. Anogir y myfyrwyr i ddatrys eu cwynion yn anffurfiol lle bo modd. Os nad yw hyn yn bosibl, mae gan y Ganolfan broses glir ar gyfer ymdrin â'u cwynion. Ar ôl gweithredu'r gweithdrefnau mewnol cyflawn, gall y myfyrwyr ofyn am adolygiad allanol gan y corff sy'n dyfarnu eu graddau ac, os ydynt yn dal i fod yn anfodlon, gallent apelio'n uniongyrchol i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch.

41 Mae gofyniad i Bennaeth yr Ysgol Graddedigion adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ac yn chwarterol i'r Cyngor Academaidd am unrhyw gwynion ffurfiol a dderbynnir: y nifer, ar ba gam y cawsent eu trin yn foddhaol, a'r nifer sy'n symud ymlaen i adolygiad allanol. Mae datganiadau blynyddol a gyflwynwyd gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn dangos na chafwyd unrhyw gyfeiriadau i'r Swyddfa ers yr adolygiad diwethaf gan QAA.

42 Mae'r corff dyfarnu perthnasol yn ymdrin â'r apeliadau academaidd, felly ni chânt eu hystyried na'u trin gan y Ganolfan.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

43 Nid yw'r Ganolfan yn cynnig unrhyw raddau ymchwil. Felly, nid yw'r arferion craidd hyn yn berthnasol.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

44 Mewn perthynas â darparu cyrsiau, nid yw'r Ganolfan yn cydweithredu ag unrhyw sefydliadau eraill heblaw ei chyrrff dyfarnu; felly nid yw'r arferion craidd hyn yn berthnasol.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

45 Mae'r Ganolfan yn cymryd nifer o gamau i gefnogi ei myfyrwyr i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol. Yn allweddol i hyn mae'r Tîm Cymorth Myfyrwyr sy'n helpu'r myfyrwyr gydag ymholiadau a materion gweinyddol ac sydd hefyd yn gallu cysylltu ar eu rhan â'r corff dyfarnu sy'n berthnasol iddyn nhw. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr sy'n darparu cymorth academaidd a bugeiliol iddyn nhw drwy gydol eu hastudiaethau. Yn ogystal, mae'r Ganolfan wedi tanysgrifio i'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn ddiweddar, ac mae hon yn golygu bod cwnsela cyfrinachol rhad ac am ddim ar gael 24 y dydd i staff a myfyrwyr y Ganolfan.

46 Mae pwyslais clir ar gyflogadwyedd ac mae llawer o raglenni'r Ganolfan wedi eu llunio i lenwi bylchau mewn sgiliau yng Nghymru a thu hwnt. Nid oes gan y Ganolfan unrhyw wasanaeth gyrfaoedd yn yr ystyr arferol, ond mae'n annog ei myfyrwyr i ddefnyddio gwasanaeth gyrfaoedd y corff sy'n dyfarnu eu graddau. Gwneir defnydd sylweddol o siaradwyr allanol, ac mae'r Ganolfan yn trefnu digwyddiadau rhwydweithio'n rheolaidd ac yn rhoi gwybod am unrhyw swyddi gwag drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Yn ystod yr ymweliad ar-lein, tynnodd y Ganolfan sylw at ei phwyslais ar waith sydd wedi ei seilio ar brosiectau sy'n galluogi i'w myfyrwyr ddatblygu sgiliau academaidd a sgiliau proffesiynol.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

47 Mae gan y Ganolfan drefniadau monitro ac adolygu sydd wedi eu sefydlu'n dda. Mae'r rheolaeth ar ansawdd wedi ei strwythuro o amgylch dau bwyllgor allweddol - y Cyngor Academaidd a'r Pwyllgorau Rhaglen. Mae cylch gwaith y Cyngor Academaidd yn cynnwys cyfrifoldebau am y safonau academaidd, y strategaeth dysgu ac addysgu, gwella a lledaenu arferion da, a goruchwyllo prosesau adolygu blynyddol. Mae'r Pwyllgorau Rhaglen yn gyfrifol am oruchwyllo'r broses flynyddol o adolygu rhaglenni, ac mae arweinwyr y rhaglenni'n cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Academaidd, gyda chamau sy'n cael eu monitro drwy gynllun gweithredu sydd ar gael i'r ysgol gyfan. Yn ogystal, mae pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr yn adrodd i'r pwyllgorau rhaglen am faterion yn ymwneud â'r dysgu a'r addysgu, ac yn ymdrin â phroblemau wrth iddyn nhw godi.

48 Cyflwynir adroddiadau sicrwydd blynyddol gyda chynlluniau gweithredu atodol i'r Prif Swyddog Gweithredol a chânt eu hystyried yn y Cyngor Academaidd, ac mae'r cyrff dyfarnu'n gofyn bod adroddiadau rheolaidd ychwanegol yn cael eu cyflwyno, gyda chefnogaeth gan eu tiwtoriaid cyswllt penodol. Mae pob adroddiad adolygu'n cynnwys cynllun gweithredu i sicrhau gwelliant yn y dyfodol ac yn nodi cyfleoedd i wella profiad y myfyrwyr, a rhoddodd staff esiamplau niferus o'r rhain. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn nodi lefelau uchel o foddhad gyda'r cyfleoedd i fynegi eu barn. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y Ganolfan yn adolygu ei harferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, a bod tystiolaeth i ddangos ei bod yn defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

49 Mae'r Ganolfan yn defnyddio arbenigedd allanol drwy broses o adolygu cynigion am raglenni newydd yn annibynnol, ac mae'n defnyddio arbenigedd panel allanol yn rhan o weithgareddau cymeradwyo'r cyrff dyfarnu. Mae nifer o raglenni'r Ganolfan hefyd yn atebol i brosesau craffu allanol cyrff proffesiynol. Mae'r system arholwyr allanol a reolir gan y cyrff dyfarnu'n un o'r prif ffynonellau o arbenigedd allanol. Mae timau'r rhaglenni'n ystyried adroddiadau arholwyr ac mae'r ymatebion yn dangos eu bod yn defnyddio eu harbenigedd a'u cyfraniad. Mae'r prosesau monitro blynyddol yn cynnwys dadansoddi adroddiadau arholwyr sy'n derbyn ymateb ffurfiol. Mae'r Ganolfan yn cydnabod y manteision o gael siaradwyr allanol i rannu eu harbenigedd proffesiynol er mwyn rhoi gwell profiad dysgu i'r myfyrwyr, ac mae briffiau asesu byw yn arferion cyffredin mewn asesiadau.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

50 Er nad oes gan y Ganolfan strategaeth drosfwaol yn ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr, rhoddwyd enghreifftiau niferus i'r tîm o gynhwysiad y myfyrwyr, gan y darparwr, yn y prosesau o ddatblygu a gwella profiad academaidd y myfyrwyr. Er enghraifft, symudwyd dyddiadau cau asesiadau fel nad oedd y dyddiadau cyflwyno ar wahanol fodiwlau wedi eu clystyru ynghyd gymaint, a darparwyd adborth am gynnwys modiwlau a arweiniodd, yn y pen draw, at adolygu'r modiwl ar gyfer y garfan nesaf o fyfyrwyr. O ganlyniad i hynny, ynghyd â'r strwythurau ffurfiol o gynrychiolaeth myfyrwyr sydd ar waith gan y darparwr, sy'n cael eu harchwilio'n fanylach o dan yr arferion craidd perthnasol, daeth y tîm i'r casgliad bod y Ganolfan yn cynnwys ei myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

51 Mae cyrsiau'r Ganolfan wedi eu halinio'n agos â'r bylchau mewn sgiliau yng Nghymru, a thu hwnt hefyd. Gweithredir rheoliadau academaidd dau bartner dyfarnu'r Ganolfan yn llawn, gan ddarparu sail ar gyfer asesu cyflawniad y myfyrwyr. Caiff ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr ei gadarnhau mewn digwyddiadau dilysu a'i fonitro drwy brosesau adolygu blynyddol sefydledig. Mae'r Ganolfan yn cyflogi staff academaidd a staff cymorth proffesiynol sydd â'r cymwysterau priodol, ac mae'n annog ei staff i ddatblygu eu galluoedd proffesiynol yn barhaus. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad felly bod y cyrsiau a ddarperir gan y Ganolfan wedi eu llunio, eu darparu a'u cefnogi'n dda gan aelodau priodol o staff, a'u bod felly'n darparu profiad academaidd o safon uchel i'r myfyrwyr.

52 Mae'r Ganolfan wedi ei hymrwymo i gefnogi ei myfyrwyr i gael canlyniadau da. Darperir y rhaglenni i gyd drwy ddull dysgu o bell cyfunol. Gwneir defnydd sylfaenol, felly, o ddau rith-amgylchedd dysgu'r Ganolfan. Mae'r holl ddarlithoedd yn cael eu recordio a chânt eu darparu i'r myfyrwyr wedyn. Mae'r galluoedd newydd hyn, a yrrwyd yn rhannol gan y pandemig COVID-19, wedi caniatáu i fwy o fyfyrwyr o gefndiroedd a manau mwy amrywiol gyflawni canlyniadau da yn y Ganolfan. Cefnogir y myfyrwyr drwy gydol eu rhaglenni astudio gan diwtoriaid personol penodol a Thîm Cymorth Myfyrwyr penodol. Yn ystod yr ymweliad ar-lein, clywodd y tîm nifer o weithiau gan y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr bod staff academaidd a staff proffesiynol y Ganolfan yn gyfeillgar, yn gwrtais, ac yn fodlon helpu bob amser. Gwneir defnydd sylweddol o ddata am gyflawniad y myfyrwyr a chyrchfannau'r ymadawyr, sy'n dangos, yn gyffredinol, bod y myfyrwyr yn cael canlyniadau da. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y myfyrwyr i gyd, o'r cam derbyn hyd y graddio, yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i lwyddo ym maes addysg uwch ac i elwa o'r addysg uwch.

Y feirniadaeth

53 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr, yn cynnwys cynrychiolwyr y cyrff dyfarnu. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio. Gallai'r tîm adolygu weld trefniadau derbyn priodol; dystiolaeth sy'n dangos cyfranogaeth effeithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu cyrsiau o safon uchel; staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu addysg o safon uchel, argaeledd y cyfleusterau, yr adnoddau dysgu a'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr priodol; a chymau gweithredu i ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd. Galluogodd yr arferion hyn i'r myfyrwyr lwyddo ym maes addysg uwch ac elwa o'r addysg uwch. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu weld bod y ddarpariaeth yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

54 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

55 Am nad yw'r Ganolfan yn gorff cyhoeddus nac yn derbyn unrhyw gyllid statudol, nid yw o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Ond, fel sefydliad, mae'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ac, ar hyn o bryd, mae wrthi'n datblygu Cynllun Datblygiad Iaith Gymraeg mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg. Er bod hwn yn dal i fod ar gam gweddol gynnar, mae'r Ganolfan yn dangos ymrwymiad i hybu'r iaith Gymraeg.

56 Mae'r Ganolfan wedi cymryd nifer o gamau yn barod i ddangos cydymffurfiad â'r Safonau Iaith Gymraeg perthnasol, yn cynnwys croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd ac yna ateb yn yr iaith y derbyniwyd yr ohebiaeth wreiddiol ynddi. Pan mae'r Ganolfan yn cynnal cynhadledd, cyfarfod neu ddigwyddiad, os bydd digon o alw amdano, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Yn ystod yr ymweliad ar-lein, clywodd y tîm fod y staff yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg ac, yn y dyfodol agos, bydd amser wedi ei neilltuo yn eu contractau i alluogi hyn wrth symud ymlaen. Yn yr un modd, anogir y myfyrwyr i ddysgu Cymraeg, a dywedodd nifer o'r myfyrwyr fod arian ar gael i'w cefnogi i gael gwersi.

57 Mae rhaglenni'r Ganolfan yn cael eu dilysu gan ddarparwyr addysg uwch sydd wedi eu seilio yn Lloegr, ac o dan amodau a thelerau dogfennau dilysu'r cyrsiau perthnasol rhaid darparu'r rhaglenni yn y Saesneg. Er hynny, mae'r Ganolfan yn awyddus i gynyddu nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ac, i wneud hynny, hysbysebir pob swydd wag yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd erbyn hyn ac, ar ben hynny, nodir bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn un o'r meini prawf manteisiol.

QAA2664 - R13245 - Mai 22

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk